OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mehefin 2022* |
| *Yn dod i rym* | *2 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4076, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd digwyddiad Carnifal Aberdaugleddau sy'n cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Gorffennaf 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S.1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4076 Trunk Road (Victoria Road, Hamilton Terrace and Great North Road, Milford Haven, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 June 2022* |
| *Coming into force* | *2 July 2022* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4076 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited due to the Milford Haven Carnival event being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A4076 Trunk Road (Victoria Road, Hamilton Terrace and Great North Road, Milford Haven, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 2 July 2022.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"closure period" ("*y cyfnod cau*") means that period commencing at 12:30 hours on 2 July 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

(**1**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 27), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos; neu;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan swyddog awdurdodedig i gefnogi digwyddiad Carnifal Aberdaugleddau ac am resymau diogelwch mewn cysylltiad â'r digwyddiad.

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 12:30 o'r gloch ar 2 Gorffennaf 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a elwir yn Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road sy'n ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain o gyffordd Victoria Road â St Anne's Road hyd at gyffordd Great North Road â Charles Street.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mehefin 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(i) any vehicle being used by the emergency services;

(ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned; or

(iii) any vehicle being used by an authorised official in support of and for safety reasons in connection with the Milford Haven Carnival event.

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A4076 Haverfordwest to Milford Haven trunk road.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as Victoria Road, Hamilton Terrace and Great North Road that extends in a general easterly direction from the junction of Victoria Road with St Anne's Road to the junction of Great North Road with Charles Street.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 1 day.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 27 June 2022

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government